Arweiniad at

ATAL DRAFFTIAU

severn wye

Cael gwared ar ddrafftiau dieisiau yn eich cartref yw un o ffyrdd rhwyddaf a mwyaf cost-effeithiol arbed ynni a thocio'ch bil. Mae'r daflen hon yn eich arwain trwy'r hanfodion, a'r cyfan y mae arnoch angen ei wybod, fesul ystafell.

Yr hanfodion

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng drafft ac awyru?

Y gwahaniaeth pwysig rhwng drafftiau ac awyru yw bod awyru'ch cartref yn fwriadol, ond nad yw drafftiau ddim. Mae awyru tan reolaeth o gymorth i leihad ac atal cyddwysiad, lleithder a llwydni rhag crynhoi yn eich cartref, trwy ddod ag awyr iach i mewn i'r amgylchedd. Nid yw drafftiau, ar y llaw arall, wedi'u cynllunio, ac y maent yn gadael gormod o awyr i mewn i fedru'i reoli'n rhwydd.

Ffordd syml o feddwl amdano yw ystyried y gwahaniaeth rhwng agor ffenestr pan yw wedi'i stemio i adael i'r cyddwysiad wasgaru, o gymharu â ffenestr nad yw'n ffitio'n iawn ac sydd wastad yn gadael awyr oer i mewn. Bydd y ffenestr yn atal cyddwysiad, ond yn gwneud yr ystafell yn llawer rhy oer, hefyd.

Pa awyru dylwn ei gadw?

Er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn aros yn lân ac iach, mae angen cynllunio bod â rhywfaint o lif awyr (sef awyru). Sicrhewch nad ydych yn atal dim o'r awyru hanfodol hwn, a bod gennych:

- Ffaniau echdynnu sy'n tynnu awyr llaith yn gyflym o ystafelloedd lle mae'n debyg o achosi problem (ceginau ac ystafelloedd ymolchi, er enghraifft).
- Briciau a rhwyllau awyr o dan y lloriau, sy'n atal gwlybaniaeth rhag pydru ffenestri a thrawstiau pren.
- Tyllau wal, sy'n gadael dipyn bach o awyr iach i mewn i'ch cartref.
- Tyllau awyru, sydd uwchlaw ffenestri fel arfer, gan ganiatáu i fymryn o awyr ddod i mewn.

Sut mae drafftiau'n dod i mewn?

Mae sawl ffordd y gall drafftiau ddod i mewn i'ch cartref yn rhwydd. Mae gan y mwyafrif o dai graciau a bylchau yn eu hadeiladwaith sy'n gadael awyr oer i mewn ac awyr twym mas. Mae cartrefi hŷn yn debycach o fod â'r problemau hyn, neu gartrefi lle bu gosodiadau fel drysau a ffenestri yn eu lle ers talwm.

Os ydych yn ceisio canfod drafftiau a all fynd yn broblem, arhoswch tan ddiwrnod oer a gwyntog iawn, yna symudwch gefn eich llaw o gwmpas ymylon drysau, ffenestri a mannau eraill lle y gall fod yna fylchau yn adeiladwaith yr adeilad: estyll llawr, simneiau, hatsus croglofft. Os ydych yn cael trafferth gwneud hyn, galwch am weithiwr proffesiynol a fydd yn debyg o ddefnyddio pensel fwg neu fatsien i ganfod unrhyw ddrafftiau trafferthus.

Sut fydd atal drafftiau o gymorth imi arbed?

Bydd cartrefi heb ddrafftiau'n fwy cyffyrddus ar dymereddau is, gan nad yw awyr oer yn llifo i mewn: felly efallai y gallwch droi'r thermostat i lawr. Mae angen llai o ynni i'w twymo, hefyd, gan eich bod yn atal awyr twym rhag dianc drwy'r un bylchau yn yr adeilad.

Mae atal rhai problemau â drafftiau, fel simneiau neu ffenestri sy'n gollwn, er enghraifft, yn debyg o arbed rhagor o arian, gan eu bod yn gadael rhagor o awyr oer i mewn nag yw twll llythyrau, er enghraifft. Mae pob ychydig o gymorth, felly mae'n werth canfod a delio â chynifer o fannau drafftiog ag y gallwch.

O gwmpas eich cartref

Hatsus croglofftau

Chwiliwch am ddrafftiau rhwng yr hatsh a'r ffrâm.

Dulliau atal drafftiau

Mae dau brif fath o hatsh croglofft:

1. Mae'r hatsh yn gorffwys ar ffrâm mynedfa'r groglofft.
2. Mae'r hatsh ar golynnau a bydd yn agor at i lawr.

Os oes gennych hatsh sy'n gorffwys ar y ffrâm, hawdd rhoi sêl gywasgu neu stribed o ewyn o gwmpas ymyl gwaelod hatsh y groglofft.

Os yw'r hatsh ar golynnau, gallwch roi sêl gywasgu neu stribyn ewyn o gwmpas ymyl allanol top yr hatsh, a stribyn o'r un fath y tu mewn i ffrâm yr hatsh. Bydd y ddau stribyn yn cydgyfarfod ac yn creu sêl na all awyr fynd drwyddi.

Ffenestri

Chwiliwch am fylchau rhwng y ffenestr a'r ffrâm, ac unrhyw fannau oerion o gwmpas cloeon a chliciedau.

Dulliau atal drafftiau

Seliau cywasgu
Mae'r rhain yn stribedi hunan-ymlynol sy'n ffitio o gwmpas ffrâm y ffenestr, i lenwi'r bwlch rhwng y ffrâm a'r ffenestr ei hun. Maent yn edrych yn broffesiynol ac yn ddiasiad, ac yn neilltuol ddefnyddiol ar fylchau ffenestr culion. Maent yn rhad ac yn rhwydd eu gosod, ond ag angen eu hadnewyddu pob ychydig flynyddoedd.

Stribedi brwsh
Os ydych am atal drafftiau trwy ffenestr godi neu os yw'r bylchau rhwng y ffenestr a'r ffrâm yn anghyson (oherwydd newidiadau tymhorol, neu am fod y ffenestri'n hen, efallai), yna gallai stribedi brwsh fod yn well ateb. Maent yn ddrytach na stribedi hunan-ymlynol, ond yn parhau'n hwy.

Selydd silicôn
Dyma ddewis cymharol rad os ydych am wneud y gwaith eich hun. Mae ar gael yn rhwydd gan amryw siopau deunyddiau adeiladu a gellir ei osod â gwaith llaw gan ddefnyddio gwn pwrpasol. Dyma'r dewis gorau os oes angen atal drafftiau ffenestri nad ydynt yn agor.

Llenni
Yr hen dechnoleg yw'r orau, weithiau. Mae llenni'n ddewis arall ar gyfer lleihau effeithiau drafftiau gyda'r hwyr. Gallwch brynu llenni trymion, trwchus, neu roi leinin ar rai presennol (mae deunydd leinio thermol ar gael ar gyfer rhagor o inswleiddiad). Cofiwch beidio â gadael i'ch llenni grogi dros reiddiaduron, gan fydd hynny'n atal gwres rhag dod i mewn i'r ystafell.

Drysau

Chwiliwch am ddrafftiau o gwmpas fframiau drysau, o gwmpas twll y clo a thwll llythyrau eich drws ffrynt.

Dylai atal drafftiau drysau allanol fod yn flaenoriaeth, gan y bydd hyn yn atal awyr oer o'r tu mas rhag dod i mewn i'r eiddo. Dylid atal drafftiau trwy ddrysau sy'n gwahanu ystafelloedd oer rhag rhai twym, hefyd, er mwyn atal llif dieisiau awyr rhwng y ddwy.

Dulliau atal drafftiau

Ffrâm y drws

Yn aml mae bwlch mwyaf ffrâm drws o dan y drws ei hun. Gallir gorchuddio'r bwlch hwn gan ddefnyddio amryw ddulliau rhwydd eu gosod, fel stribed brwsh, llabed colynnog, llafn rwber neu ddim ond 'selsigen' o ddeunydd trwchus.

Os gallwch deimlo drafftiau o gwmpas ochrau a phennau eich drysau hefyd, gallwch ddefnyddio seliau cywasgu neu stribedi brwsh.

Twll y clo

Gellir atal y drafftiau hyn yn rhwydd trwy osod clawr twll clo. Maent yn symud i'r naill ochr er mwyn agor, fel y gallwch roi'r allwedd i mewn, a symud yn ôl drachefn er mwyn atal drafftiau. Byddwch sicr o'i osod yn dýn.

Y twll llythyrau

Gallwch brynu brwshys neu You can purchase brushes or labedi y gellir eu gosod ar dyllau llythyrau er mwyn lleihau drafftiau. Gallwch un ai osod twll llythyrau newydd, neu sgriwio plât ychwanegol y tu mewn i'r drws, y tu cefn i'r twll llythyrau.

Sbotoleuadau

Chwiliwch am ddrafftiau o gwmpas sbotoleuadau a goleuadau nenfwd.

Dulliau atal drafftiau

Mae'n hawdd delio â drafftiau o gwmpas sbotoleuadau a goleuadau nenfwd trwy osod capiau penodol y tu cen i'r golau, a'i orchuddio â deunydd inswleiddio. Bydd hyn yn rhwyddach, ond hefyd yn bwysicach ar gyfer goleuadau yn y nenfwd islaw'ch croglofft. O osod deunydd inswleiddio dros y gosodiadau goleuo, sicrhewch fod y cap wedi'i selio'n dýn er mwyn atal y deunydd rhag mynd yn rhy dwym.

Pibellau a thyllau awyru

Chwiliwch am ddrafftiau lle mae pibellau'n dod i mewn i'ch eiddo ac yn mynd mas ohono, ac o gwmpas unrhyw dyllau awyru (ffaniau echdynnu, er enghraifft).

Dulliau atal drafftiau

Gellir cau bylchau bychain o amgylch ymylon tyllau awyru gan ddefnyddio selydd silicôn. Ar gyfer bylchau mwy, neu rai afreolaidd eu ffurf, mae llanwyddion ewynnol yn effeithiol iawn ac yn hawdd eu defnyddio. Chwistrellir y rhain i mewn i'r bwlch, yna caniateir iddynt chwyddo a chaledu.

Pa un bynnag a ddewiswch, gofalwch beidio â chau unrhyw friciau awyru na thyllau sy'n caniatáu awyru angenrheidiol yn eich cartref.

Lloriau

Chwiliwch am ddrafftiau rhwng estyll lloriau ac o gwmpas y bordau wal.

Dulliau atal drafftiau

Estyll lloriau
Os oes gennych garped wedi'i osod dros estyll eich llawr, gallwch roi selydd silicôn yn y bylchau rhwng yr estyll. Efallai y byddai hyn yn fwy ymarferol pan ydych yn gosod carped newydd. Mae isgarped trwchus o dan y carped yn ddull atal drafftiau effeithiol, hefyd.

Os oes gennych estyll llawr noeth, nid silicôn yw'r dewis gorau, gan nad yw'n edrych yn ddiasiad. Mae gwell dewisiadau ar ffurf rholiau fel tiwbiau y gellir eu gwthio i'r bylchau rhwng yr estyll, neu ddarnau main o blastig siâp 'v'. Gwthir y rhain i'w lle rhwng yr estyll, gan ddefnyddio teclyn syml iawn fel cerdyn credyd. O'u gosod, byddant yn agor i lenwi'r bwlch.

Ffordd fwyaf effeithiol atal drafftiau o dan estyll eich llawr yw inswleiddio'r distiau. Golyga hyn godi'r estyll a gosod deunydd inswleiddio rhwng y distiau. Mae'n ddrud ac yn cymryd amser, ond gallai fod yn werth ei ystyried, yn enwedig os oes gennych waith arall ymlaen ar y pryd: gosod estyll neu garped newydd, er enghraifft.

Bordau wal
Gallwch atal drafftiau bordau wal gan ddefnyddio selydd silicôn neu ddeunydd tebyg (deunydd selio peintwyr a phapurwyr, er enghraifft).

*Pa un ai y defnyddiwch lanwydd, selydd neu ddeunydd arall, sicrhewch ei fod yn hyblyg. Bydd estyll lloriau a bordau wal yn chwyddo a chrebachu gydag amser, felly gorau defnyddio selydd sy'n gwneud yr un fath.

Simneiau

Os oes gennych simnai agored (pa un ai'r ydych yn cynnau tân ynddi ai peidio), byddwch yn colli gwres pryd bynnag nad oes tân ynddi. Mae modd atal drafftiau simnai yn rhwydd ac yn gyflym, a gellir defnyddio dulliau atal drafftiau tros dro y gellir eu tynnu ymaith pan fo arnoch eisiau cynnau tân.

Dulliau atal drafftiau

Defaid simnai

Mae'r rhain yn fatiau neu'n glustogau atal drafftiau a wneir o wlad defaid hollol naturiol. Maent o wahanol feintiau a siapiau, ac yn ffitio i'r dim y tu mewn i'r simnai, gan rwystro awyr oer mas rhag dod i mewn i ystafell dwym y tu mewn.

Swigod simnai

Yn union fel y mae'r enw'n ei awgrymu, mae swigen simnai yn ffitio i'r dim, gan y gallwch ei llenwi i gau'r simnai. Nid oes ond angen ei gosod yn rhan isaf y simnai, a'i llenwi, er mwyn iddi aros yn ei lle. Maent wedi'u cynllunio i atal y rhan fwyaf o ddrafftiau, ond i ganiatáu i beth awyr fynd heibio, er mwyn awyru.

Mae defaid a swigod simnai wedi'u cynllunio i'w gadael yn eu lle hyd nes y dymunwch gynnau tân. Yna gellir eu tynnu'n rhwydd. Defnyddiol yw clymu rhywbeth gweladwy at ben isaf unrhyw ddyfais atal drafftiau a osodwch yn eich simnai, i'ch atgoffa i'w dynnu cyn cynnau tân yno.

Craciau

Chwiliwch am ddrafftiau trwy hen waliau, o gwmpas peiriannau sydd wedi'u gosod, pibellau a gosodiadau trydan.

Dulliau atal drafftiau

Yn anochel, bydd unrhyw graciau bychain yn waliau eich eiddo yn amrywio o ran maint, a gallant ehangu a chrebachu yn ôl y tymor a newid graddfeydd pwysedd. O ganlyniad, mae'n gall defnyddio llanwydd hyblyg a fydd yn caniatáu ar gyfer rywfaint o symudiad, gan atal crac rhag ailagor drachefn.

Yn achos craciau a bylchau mwy, gallwch ddefnyddio llanwydd ewynnol. Pan fydd yr ewyn wedi caledu gellir ei swndio a'i baentio'n unwedd â'r cyffiniau. Os oes gennych unrhyw graciau sylweddol, dylech sicrhau nad oes dim o'i le â'r adeiladwaith. Os ydych yn pryderu, cysylltwch ag Archwiliwr Adeiladau a fydd yn sicrhau bod yr adeiladwaith yn ddiogel.



Pethau eraill i'w hystyried

Sicrhewch fod gennych wastad awyru digonol

Mae'n hollbwysig sicrhau nad ydych yn atal awyru angenrheidiol wrth atal drafftiau. Chwiliwch am:

- Ffaniau echdynnu
- Rhwyllau o dan y lloriau
- Tyllau awyru yn y waliau
- Briciau awyr (o dan y llawr neu yn y waliau)
- Tyllau awyru mewn ffenestri
- Pibelli bwyler a ffliwiau tanau

Mae'n bwysig neilltuol fod gennych wastad ddigon o awyru mewn ystafelloedd sydd ym mherygl gormod o gyddwysiad, fel ystafelloedd ymolchi, ceginau ac ystafelloedd amlbwrpas (peiriannau golchi ac ati).

Pwy sydd i wneud y gwaith? Chi eich hun, ynteu gweithiwr proffesiynol?

Mae peth gwaith atal drafftiau y gallwch chi eich hun ei wneud yn gyflym ac yn rhwydd. Hyd yn oed os nad ydych yn arfer trin a thrwsio, dylech fedru gosod stribedi cywasgu neu lenwi craciau bychain heb fawr o drafferth. Os nad ydych yn hyderus ynglŷn â darfod y gwaith yn iawn, efallai mai gorau fyddai galw am weithiwr proffesiynol. Mae hyn yn neilltuol wir os ydych yn bwriadu gwneud dim mwy cymhleth, fel inswleiddio distiau llawr. Er y bydd yn ddrytach, mae'n debyg y bydd gwaith atal drafftiau proffesiynol yn arbed rhagor o arian yn y tymor hir, gan y bydd y gosodwr yn defnyddio'r deunydd gorau sydd ar gael ar gyfer y gwaith, yn y dull mwyaf addas.

Ydych chi am wneud newidiadau mawr? Beth am wneud y tŷ'n aerdyn?
Os ydych am ôl-osod eich eiddo (neu'n adeiladu o'r dechrau, hyd yn oed), mae bod yn aerdyn yn rhywbeth i mae angen i chi'i ystyried. Mae'n debyg i awyru tan reolaeth, gan ei fod yn dileu bylchau, craciau a thyllau anfwriadol yn yr adeiladwaith, gan sicrhau colli llai o wres a gwella effeithlonrwydd ynni.

Nid yw bod yn aerdyn yn golygu selio'r adeilad yn llwyr fel gwagle. Golyga leihau gollyngiadau anfwriadol, fel bo llai o lif awyr direolaeth o gwmpas yr adeilad. Mae llai o awyr yn gadael adeilad yn golygu llai o golli gwres, sy'n golygu y bydd eich system dwyno yn gweithio'n fwy effeithlon, gan leihau eich biliau a thocio gwastraff ynni. Mae gwella pa mor aerdyn yw eich cartref yn golygu y byddwch yn fwy cyffyrddus gyda'r gwres yno. Byddwch wedi'ch inswleiddio'n well yn erbyn oerfel y gaeaf, ond yn llai tebyg o fod yn rhy dwym yn yr haf, hefyd: felly cyd eich cartref yn gyfforddus gydol y flwyddyn.

Ond i chi fod â system awyru sydd wedi'i gynllunio'n gywir, bydd bod yn aerdyn yn dileu lleithder a llwydni, ac yn gwella ansawdd yr awyr yn y tŷ. Mae llawer o adeiladau'n dibynnu ar raddfa neilltuol o awyru naturiol neu ollwng awyr i fod â digon o awyru. Dyna pam, ar rai adegau o'r flwyddyn, y mae llawer i deulu'n gorfod delio â gormod o gyddwysiad yn eu heiddo. Trwy fod â system awyru wedi'i gynllunio neu fecanyddol ynghyd â bod yn aerdyn, gallwch reoli faint o awyru sydd yn eich eiddo.

Os ydych yn ystyried cael gwneud gwaith fel hwn, neu os hoffech ganfod rhagor am sut allai Seren Wae fod o gymorth i chi ag ôl-osod, ewch i'n gwefan er mwyn gweld ein holl amrywiaeth gwasanaethau severnwye.org.uk/services.

Dewis gosodwr
Byddem wastad yn argymell cael rhagor nag un pris, pa waith bynnag sydd gennych mewn golwg. Mae gwefan y Gymdeithas Inswleiddio Genedlaethol (nia-org.uk) yn rhestru gosodwyr cofrestredig sydd â gwarant o ddeng mlynedd ar eu gwaith.

Gall cael hyd i'r un iawn i wneud gwaith mawr ar eich cartref fod yn gryn her. Er mwyn helpu perchnogion eiddo i ddewis yn gywir, mae gennym gronfa wybodaeth am osodwyr lleol cymwys, addas, Er mwyn dechrau, ewch at wefan Link to Energy (linktoenergy.org.uk) a theipiwch eich cod post neu enw'ch tref.

Cael gwared ar ddrafftiau dieisiau yn eich cartref yw un o ffyrdd rhwyddaf a mwyaf cost-effeithiol arbed ynni a thocio'ch bil. Mae'r daflen hon yn eich arwain trwy'r hanfodion, a'r cyfan y mae arnoch angen ei wybod, fesul ystafell.

01452 835060

severnwye.org.uk

@Severn_Wye

severn wye

Mae Asiantaeth Ynni Severn Wye yn gwmni di-elw (rhif 03830608) ac elusen gofrestredig (rhif 1083812) sy'n gweithredu'n bennaf ledled Cymru a'r siroedd ar y gororau yn Lloegr, gan gefnogi cymunedau, trigolion a busnesau i greu dyfodol carbon isel cynaliadwy, fforddiadwy.

Hawlfraint © 2022 Asiantaeth Ynni Severn Wye